Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024, am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neil Prior | Aelod Cabinet dros Gymunedau, Gwelliant Corfforaethol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, CSP (Cadeirydd) |
| Y Cynghorydd Jon Harvey | Arweinydd y Cyngor, CSP |
| Y Cynghorydd John Davies | CSP |
| Libby Taylor | Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Hywel Dda |
| Ben Williams | Pennaeth Seilwaith, CSP |
| Darren Thomas | Pennaeth Isadeiledd, CSP |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Vikki Butler | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Robyn Collip | Un o raddedigion Rhaglen Datblygu Graddedigion Genedlaethol, CSP |
| Yovieta Andrews | Un o raddedigion Rhaglen Datblygu Graddedigion Genedlaethol, CSP |
| James White | Pennaeth Ymgysylltu, Perfformiad a Chymuned, CSP (cyrraedd am10:15) |
| Tom Moses | Un Llais Cymru (cyrraedd am10:23) |

<u>Arsylwi</u>

| | |
|---|---|
| Joanne Hobson | RNID |

*<u>Cymorth/ysgrifenyddiaeth</u>*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP (cyrraedd am 10:28) |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Rachael Rimmer | Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, CSP |
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

| | |
|---|---|
| Mydrian Harries | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP |
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Linda Jones | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |

| | |
|---|---|
| Anna Malloy | Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid, Porthladd Aberdaugleddau |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol, PLANED |
| Rhian Bennett | Uwch-reolwr Comisiynu, Cyngor Sir Benfro |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.06am

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

Newidiwyd ychydig ar yr agenda. Byddai pwynt 5 ar yr agenda yn cael ei drafod yn gyntaf, a byddai pwynt 3 ar yr agenda yn cael ei drafod fel rhan o ddiweddariadau ar gynllun y prosiect llesiant.

## 2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf / cofnod camau gweithredu

Cofnodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir, ac roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

## 3. Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru – Prosiect Dewi a gwaith o fewn y rhanbarth

Rhoddodd VB gyflwyniad i'r grŵp ar 'Prosiect Dewi' Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Dosbarthwyd hwn fel rhan o becyn agenda'r cyfarfod.

Holodd SL faint o ddiwrnodau o gymorth sy'n cael eu rhoi fesul sir, a faint o hyn sy'n waith ar y cyd yn erbyn gwaith rhanbarthol. Dywedodd VB fod gwaith rhanbarthol yn cael ei wneud mewn meysydd fel hyfforddiant, neu mewn perthynas â'r bwrdd iechyd, lle mae ôl troed ehangach i'r gwaith. Nododd fod gwaith unigol yn cael ei wneud mewn amgylchiadau lle mae'n fwy seiliedig ar le neu â chyd-destun lleol iawn. Eglurodd VB hefyd fod cymorth yn cael ei ddarparu ar sail angen, yn hytrach na nifer penodol o ddiwrnodau. Nododd y darperir 50 diwrnod y flwyddyn fesul ymgynghorydd.

Holodd BW a oedd cefnogaeth i'r agenda pwysau iach yn gysylltiedig â Sir Benfro. Dywedodd VB fod y gwaith hwn yn draws-ranbarthol, gan gynnwys Bae Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ond nad yw'n cynnwys Sir Benfro ar hyn o bryd. Nododd NP fod yna gysylltiad posib i'w wneud yma.

Gofynnodd NP i VB egluro lle mae Prosiect Dewi wedi gweithio'n dda. Dywedodd VB fod gwaith wedi bod yn ddefnyddiol o ran cefnogi asesiadau llesiant, ac wrth sicrhau bod grwpiau ffocws lleol wedi'u cynnal a bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Mae hefyd wedi gweithio'n dda mewn perthynas â hyfforddiant, ac wedi cefnogi rhwydweithio a chyfeirio. Nododd VB hefyd fod y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn aelodau o is-grwpiau hinsawdd a thlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O fewn y grŵp tlodi yn arbennig, maent wedi helpu i gyd-hwyluso'r is-grŵp profiad bywyd newydd.

Nododd SL fod Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro wedi enwebu rhai Hyrwyddwyr Cydgynhyrchu yn ddiweddar, a holodd a yw hyn yn rhan o Brosiect Dewi. Cadarnhaodd VB fod hyn yn rhan o aelodaeth ehangach o'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn hytrach na Phrosiect Dewi.

## 4. Diweddariadau prosiect y cynllun llesiant

*Cryfhau Cymunedau*

Rhoddodd YA ddiweddariad ar waith ar gyfer y prosiect Cryfhau Cymunedau:

- Mae Sioeau Teithiol Cadw'n Iach wedi parhau, a derbyniwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a gymerodd ran. Cafwyd llawer o adborth gan y sectorau gwirfoddol a chymunedol, sydd wedi nodi bod y digwyddiadau yn wych ar gyfer rhwydweithio.
- Cynhaliwyd digwyddiad Rhwydwaith Menter Gymdeithasol ym mis Mehefin, er nad oedd staff Cyngor Sir Penfro yn gallu bod yn bresennol oherwydd bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod yr etholiad. Ar y cyfan, roedd yr adborth ar gyfer y digwyddiad hwn yn gadarnhaol.
- Mae 22 o bobl wedi cael eu hyfforddi o dan y fethodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol, sef techneg o gasglu data ansoddol sy'n dangos tystiolaeth o newid. Gofynnwyd iddynt gynhyrchu straeon y bydd grwpiau panel wedyn yn eu gwerthuso, cyn dewis pa un sydd fwyaf arwyddocaol. Bydd yr wybodaeth a gesglir o hyn yn cael ei huwchgyfeirio yn ôl i grwpiau gweithredol a strategol Cryfhau Cymunedau, a bydd diweddariad yn cael ei roi i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Mae capasiti ymgysylltu ychwanegol wedi'i greu o fewn Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro drwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Cynhaliwyd gweithdai cydgynhyrchu ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, gyda mwy yn yr arfaeth yn y dyfodol agos.
- Mae pum blaenoriaeth allweddol wedi eu hadnabod ar gyfer 2024/25, ac mae gwaith wedi dechrau yn y maes hwn.

Ychwanegodd SL, er ei bod yn anffodus nad oedd cydweithwyr awdurdod lleol yn gallu mynychu'r Rhwydwaith Menter Gymdeithasol ym mis Mehefin, roedd tua 70-80 o bobl o 55 o wahanol sefydliadau yn bresennol. Amlygodd hefyd fod Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, ynghyd â CWMPAS, wedi bod yn ymwneud â chefnogi menter gymdeithasol yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro, gyda'r potensial i gymryd drosodd ganolfan ddydd yno. Nododd fod angen cynnal gwaith ymgysylltu a chydgynhyrchu ar gyfer hyn gyda staff, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach, ac y byddai'n ddefnyddiol i VB fod yn rhan o'r gwaith hwn. Ar gyfer gwaith ymgysylltu, dywedodd SL fod 21 awr yr wythnos o gapasiti ychwanegol yng Nghymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro wedi'i ariannu tan ddiwedd mis Mawrth, ond bod rhywfaint o arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd i dalu am arbenigedd ymgysylltu ychwanegol tan fis Rhagfyr. Trafododd hefyd fod ganddynt ddiddordeb mewn gwneud rhywfaint o waith ar gyfer cynlluniau a phroffiliau cymunedol.

Mynegodd VB y byddai'n ddefnyddiol cael rhywfaint o bresenoldeb yn yr is-grŵp Cryfhau Cymunedau er mwyn cefnogi gwaith sy'n mynd rhagddo mewn prosiectau cysylltiedig.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Cysylltu VB / Mererid Lewis gyda Rhian Bennett ynghylch aelodaeth o'r is-grŵp Cryfhau Cymunedau.

*Prosiectau ar thema'r amgylchedd*

i) Trosolwg

Rhoddodd DT ddiweddariad ar brosiectau ar thema'r amgylchedd:

- Nododd DT ei fod wedi cymryd yr awenau yn ddiweddar fel cadeirydd yr is-grŵp Casglu Data Cenedlaethol, a diolchodd i CD am arwain y grŵp hyd yma.

- Mae angen i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus benderfynu pa feysydd pwnc craidd y mae am i’r is-grŵp ymdrin â hwy wrth symud ymlaen, gan fod cylch gorchwyl presennol y grŵp yn weddol eang.
- Mae cyllidebau a chapasiti swyddogion yn dynn ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau, felly mae angen i'r grŵp ystyried sut y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn yr amgylchiadau hyn.
- Mae angen canolbwyntio cwmpas presennol y grŵp yn ychydig o flaenoriaethau allweddol, er mwyn nodi’r hyn y gellir ei gyflawni’n realistig o’r cynllun llesiant yn y tymor canolig.
- O dan arweiniad CD o’r is-grŵp Casglu Data Cenedlaethol, rhoddwyd y Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd a’r cynllun ynni ardal leol ar waith. Gwnaethpwyd llai o gynnydd ar strategaeth ar gyfer adfer natur oherwydd diffyg adnoddau.

<u>ii) Bioamrywiaeth a'r Argyfwng Natur</u>

- Mae sicrhau’r gallu i gyflawni’r prosiect Argyfwng Bioamrywiaeth a Natur yn broblem fawr oherwydd diffyg adnoddau.
- Bydd yn fwy cynhyrchiol gofyn i arweinydd prosiect y thema hon ganolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth, yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â holl faes y prosiect.
- Mae Hywel Dda wedi darparu ychydig o gyfleoedd gwaith y gellid eu codi o dan y prosiect hwn, megis cysylltu â phrosiect Natur am Byth.

<u>iii) Ymaddasu i Newid Hinsawdd</u>

- Mae 39 o flaenoriaethau hinsawdd a 24 o gamau gweithredu allweddol wedi'u nodi ar gyfer Sir Benfro o dan y Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd. Mae’n bosibl mai dim ond ar un neu ddau o’r camau hyn y bydd gwaith yn canolbwyntio oherwydd pwysau parhaus ar gapasiti ac adnoddau.
- Mae Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn cynnal adolygiad i ganfod a yw unrhyw un o’r camau hyn wedi’u cwblhau eisoes, gan ei bod yn debygol bod mwy wedi’i wneud nag sy’n weladwy.

<u>iv) Datgarboneiddio a Sero Net</u>

- Mae ffocws wedi bod ar ddarparu hyfforddiant llythrennedd carbon, ond mae hyn wedi arafu yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd newidiadau mewn personél.
- Mae gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo ar gyfer cynhyrchu cynlluniau ynni ardal leol. Mae un Sir Benfro eisoes yn ei le, ond mae siroedd eraill bellach yn cynhyrchu eu rhai eu hunain. Cynhelir gweithdy ym mis Gorffennaf i ddatblygu a bwrw ymlaen â chynllun gwaith ar gyfer hyn.

Ychwanegodd CD fod Emma Taylor ar fin cyfarfod â Grŵp Gweithredol Cryfhau Cymunedau, er bod y cyfarfod wedi'i ohirio. O’r herwydd, mae gwaith yn mynd rhagddo i greu cyswllt rhwng yr amgylchedd a gwaith cymunedau.

Amlygodd JH fod angen i'r grŵp ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig ar gyfer prosiectau amgylcheddol. Awgrymodd y gallai'r grŵp fanteisio ar waith y mae APCAP wedi bod yn ei wneud, gan fod hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol. Nododd hefyd, er nad yw prosiectau ar raddfa lai yn ymddangos fel eu bod yn cael effaith fawr, maent yn gwella bywoliaeth pobl yn aruthrol. Pwysleisiodd JH fod angen i'r grŵp dorri prosiectau mwy fel Bioamrywiaeth a Sero Net yn ddarnau llai y gellir eu cyflawni'n haws.

Nododd TM fod 78 o gynghorau tref a chymuned yn Sir Benfro, a'u bod yn adnodd sylweddol nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol. Ychwanegodd fod angen gwneud mwy i ddatgloi'r sector hwn o waith a chael pobl yn ymwybodol ac yn llawn cymhelliant.

Dywedodd SL y bydd gwaith gyda chymunedau ynghylch eu cynlluniau llesiant cymunedol yn debygol o ddod â chamau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth i'r amlwg. Trafododd fod pobl yn gwerthfawrogi mannau gwyrdd yn eu cymunedau, ac y gall llu o weithgareddau lleol bach gyda'i gilydd wneud gwahaniaeth yn yr ardal leol. Amlygodd hefyd ei bod yn fwy defnyddiol cael pobl i gymryd rhan yn y gwaith hwn mewn mannau sy'n gyfarwydd iddynt. Nododd SL fod llawer o grwpiau cymunedol o gwmpas y gellid eu dwyn ynghyd fel rhwydwaith o sefydliadau â ffocws. Dywedodd y gallai partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio rhyw fath o fframwaith democratiaeth gydgynghorol i ganolbwyntio ar feysydd cyffredin. Dywedodd TM fod rhwydwaith sirol ar gyfer pobl sy'n ymwneud â gwirfoddoli amgylcheddol wedi cael ei drafod yn y gorffennol, er nad oedd capasiti i ddatblygu hwn ar y pryd. Dywedodd y gallai hyn fod yn fuddiol i edrych i weld a yw sefydliadau yn gallu rhyddhau capasiti i gydlynu hyn.

Daeth NP i'r casgliad y dylai darnau o waith sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ategu ei gilydd, yn hytrach nag ychwanegu at y baich presennol. Nododd fod llawer o waith ar raddfa fach yn digwydd mewn cymunedau, a bod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gefnogi hyn drwy ymgysylltu â grwpiau cymunedol, heb gymryd rheolaeth. Adleisiodd JH fod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus osgoi dull biwrocrataidd o'r brig i'r bôn a chaniatáu i gymunedau wneud cynnydd heb geisio cydlynu eu gwaith. Awgrymodd NP y gallai sesiwn sbotolau yn y dyfodol ar gyfer prosiectau amgylcheddol ganolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth allweddol a sut maent yn cysylltu â gwaith cymunedol.

Dywedodd DT y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cymunedol ystyried dwyn ynghyd wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y gofod cymunedol, a rhannu'r wybodaeth hon i ddangos cynnydd ac arfer gorau. Nododd hefyd, o'r trafodaethau hyn, ei bod yn ymddangos bod gan gydweithwyr ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddiddordeb mewn canolbwyntio ar ochr argyfwng natur gwaith amgylcheddol. Fodd bynnag, mae hon yn agenda fawr o hyd y gellid ei mireinio ymhellach.

*Prosiect tlodi*

Rhoddodd JW ddiweddariad ar y prosiect tlodi:

- Yng nghyfarfod diwethaf y Gweithgor Tlodi, bu'r aelodau a fydd yn bresennol yn Sioe'r Sir yn trafod sut y gellid ychwanegu gwerth drwy ddod â mudiad o'r sector gwirfoddol sy'n gweithio tuag at yr agenda tlodi ynghyd. Nododd ei bod yn costio cannoedd o bunnoedd am stondin yn y sioe, ac os byddai partneriaid yn mynychu beth bynnag, byddai'n werth rhoi'r gofod hwn i sefydliadau i'w helpu i gasglu rhoddion a lledaenu ymwybyddiaeth am eu gwaith.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â thlodi plant. Mae potensial o £25,000 ar gael tan fis Mawrth 2025, y gellid ei ddefnyddio i ychwanegu capasiti at waith profiadau bywyd.
- Mae'r strategaeth tlodi yn ei lle, ac mae strwythur monitro wedi ei sefydlu ar gyfer hyn. Mae'r strategaeth bellach yn y cyfnod cyflawni.

Roedd y grŵp yn cytuno'n gyffredinol y byddai dod â sefydliadau'r sector gwirfoddol i Sioe'r Sir yn gam cadarnhaol.

LR cwestiynwyd a oes rôl ehangach i weithio gydag unigolion sy'n rhedeg Fforymau Ieuenctid lleol a thrafod sut y gall grwpiau ymgysylltu â phobl ifanc. Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Bydd LR yn cysylltu â chysylltiadau mewn Fforymau Ieuenctid lleol i benderfynu ar y ffordd orau i'r BGC ymgysylltu â phobl ifanc.

**5. Unrhyw faterion eraill**

Nid oedd unrhyw fater arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25am.

**Cofnod camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3 | Cysylltu VB / Mererid Lewis gyda Rhian Bennett ynghylch aelodaeth o'r is-grŵp Cryfhau Cymunedau. | Dyddiad y cyfarfod nesaf: | LR | Wedi'i gwblhau |
| 2 | 5 | Cysylltu â chysylltiadau mewn Fforymau Ieuenctid lleol i benderfynu ar y ffordd orau i'r BGC ymgysylltu â phobl ifanc | Dyddiad y cyfarfod nesaf: | LR | Wedi'i gwblhau |